



Pawb a'i Le

Arweiniad

Cymru



Beth sydd y tu fewn?

1. Ynglŷn â Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol
2. Pwy all ymgeisio?
3. Beth yw amcan y rhaglen a beth fyddwn yn ei ariannu?
4. Am beth y gallwch chi ddefnyddio'r grant?
5. Sut byddwn ni'n asesu'ch cais?
6. Mae dau edefyn i Pawb a'i Le: Maint Canolig a Mawr
7. Mae gennyf ddiddordeb. Sut ydw i'n dechrau arni?
8. Y broses ymgeisio

Terfyn amser ymgeisio

Nid oes dyddiad cau ar gyfer Pawb a'i Le. Gallwch wneud cais unrhyw bryd. Cyfeiriwch at y broses ymgeisio ar dudalennau naw a deg i weld faint o amser y mae'r broses yn debygol o gymryd.

Ynglŷn â Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

Rydym yn cefnogi pobl a chymunedau i ffynnu

Rydym yn credu bod y tair thema a ganlyn yn hanfodol wrth ein helpu ni i gyflawni ein cenhadaeth ac ymdrin ag anghydraddoldeb yng Nghymru. Rydym eisiau i'r holl weithgareddau a ariannwn ymgorffori'r rhain.



- **Pobl yn arwain** – rydym eisiau i'r bobl a fydd yn elwa o'ch prosiect neu sy'n cael eu heffeithio ganddo, gymryd rhan yn ystyrllon yn natblygiad, dyluniad a chyflwyniad eich gweithgareddau.
- **Seiliedig ar gryfderau** – rydym eisiau annog mudiadau i fanteisio i'r eithaf ar sgiliau a phrofiadau pobl a chryfderau o fewn cymunedau, ac adeiladu arnynt.
- **Cysylltiedig** – rydym eisiau gwybod bod gennych ddealltwriaeth dda o'r hyn y mae eraill yn ei wneud yn lleol, bod yr hyn yr ydych yn ei wneud yn cydweddu â hyn ac yn ychwanegu ato a bod gennych berthnasol gwaith gyda grwpiau perthnasol eraill.

Mae arweiniad pellach ar y tair thema ar gael yma: cronfagymunedolyg.org.uk/themaupawbaile

Hygyrchedd

Cysylltwch â ni i drafod unrhyw anghenion cyfathrebu penodol sydd gennych. Mae gwybodaeth gyswllt ar gael ar ddiwedd yr arweiniad hwn.

Ein hegwyddorion cydraddoldeb

Mae ein hegwyddorion cydraddoldeb yn cynnwys: Hyrwyddo hygyrchedd, gwerthfawrogi amrywiaeth ddiwylliannol, hyrwyddo cyfranogiad, hyrwyddo cyfle cyfartal, hyrwyddo cymunedau cynhwysol, lleihau anfantais ac eithrio. Ewch i'n gwefan am fwy o wybodaeth: cronfagymunedolyg.org.uk/cydraddoldeb

Mae'r arweiniad hwn a'r ffurflenni cais ar gael yn Saesneg hefyd.

- os yn ymgeisio am grant maint canolig (rhwng £10,001 a £100,000), ewch i: cronfagymunedolyg.org.uk.org.uk/peopleandplacesmedium
- Os yn ymgeisio am grant mawr (rhwng £100,001 a £500,000), ewch i: cronfagymunedolyg.org.uk/peopleandplaceslarge

Rydym yn gofalu am yr amgylchedd

Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn ceisio lleihau ei heffaith negyddol ar yr amgylchedd ac yn defnyddio adnoddau cynaliadwy priodol yn unig.

2. Pwy all ymgeisio?

Gallwch ymgeisio os ydych yn grŵp gwirfoddol neu gymunedol fel elusen, cydweithfa, menter gymdeithasol neu gwmni buddiant cymunedol, cwmni nid er elw cyfyngedig trwy warant neu fudiad statudol fel awdurdod lleol neu ysgol. Mae croeso i bartneriaethau ymgeisio hefyd cyhyd ag y maent wedi eu harwain gan fudiadau gwirfoddol, cymunedol a menter gymdeithasol (VCSE). Mae'n rhaid bod gan eich mudiad bwyllgor rheoli gydag o leiaf dri aelod nad ydynt yn perthyn i'w gilydd, y maent yn 18 oed neu'n hŷn. Ni allwn ariannu unigolion neu unig fasnachwyr, grwpiau sy'n gwneud elw a mudiadau nad ydynt wedi'u sefydlu yn y Deyrnas Unedig.

Gallwch ymgeisio os yw eich mudiad yn:

- ✓ Fudiad gwirfoddol neu gymunedol
- ✓ Elusennau cofrestredig
- ✓ Grwpiau neu glybiau sydd â chyfansoddiad
- ✓ Cwmni buddiant cymunedol (CBC)
- ✓ Mentrau cymdeithasol
- ✓ Ysgol
- ✓ Corff statudol (gan gynnwys cyngor tref, plwyf neu gymuned)

Ni allwn dderbyn ffurflenni cais gan:

- ✗ Unigolion
- ✗ Unig fasnachwyr
- ✗ Mudiadau y mae eu bwriad yw creu elw yn bennaf i'w ddsbarthu'n breifat
- ✗ Mudiadau sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r Deyrnas Unedig
- ✗ Ceisiadau a wneir gan un mudiad ar ran mudiad arall

Mae'r categorïau mudiad hyn ar gyfer arweiniad yn unig. Os nad ydych yn siŵr p'un a allwch gael eich ariannu ai beidio, cysylltwch â ni.

3. Beth yw amcan y rhaglen?

Mae'r rhaglen Pawb a'i Le'n cynnig tua £15 miliwn i'w ddyfarnu bob blwyddyn i brosiectau sy'n digwydd yng Nghymru. Nod y rhaglen yw:

- Gan weithio ar y cyd, bydd pobl a chymunedau'n defnyddio eu cryfderau i gael effeithiau cadarnhaol ar y pethau sydd fwyaf pwysig iddynt.

Mae'n bwysig i ni eich bod wedi cynnwys eich cymuned wrth ddylunio, datblygu a rhedeg eich prosiect, gan weddu i'n thema Pawb a'i Le.

4. Am beth y gallwch ddefnyddio'r grant?

Gallwch ymgeisio am swm rhwng £10,001 a £500,000 ar gyfer prosiectau sy'n para rhwng un a phum mlynedd.

Gallwn ariannu eich costau i gyd neu rai ohonynt gan gynnwys cyflogau staff, hyfforddiant, treuliau gwirfoddolwyr, costau rheoli, cyfarpar, costau adeiladau, monitro a gwerthuso a chostau cyffredinol.

Gallwn ariannu gwaith cyfalaf, fel adeilad newydd, adnewyddu, prynu tir neu adeiladau a cherbydau, fel rhan o brosiect ehangach. Os yw'ch prosiect yn cynnwys tir neu adeiladau, gallwch ymgeisio am grant hyd at £50,000 hefyd i'ch helpu datblygu eich cynlluniau cyfalaf a bodloni ein gofynion (gelwir hyn yn Grant Datblygu Cyfalaf).

Cysylltwch â ni i drafod eich syniad prosiect os ydych yn ystyried ymgeisio am Grant Datblygu Cyfalaf neu os yw eich prosiect yn cynnwys tir neu adeiladau.

Mae rhai pethau na allwn dalu amdanynt, er enghraifft costau ar gyfer eitemau neu weithgareddau rydych eisoes wedi eu talu cyn cael penderfyniad gennym ni, gweithgareddau y tu allan i'r Deyrnas Unedig a gweithgareddau codi arian. Gwiriwch gyda ni os ydych yn ansicr.

IE



Costau
hyfforddi



Treuliau
gwirfoddolwyr



Costau
staff



Prosiectau
cyfalaf



Cludiant



Digwyddiada
u unigol



Gwres a
golau/costa
u rhedeg

NA



Alcohol



TAW
adferadwy



Gweithgareddau
statudol



Gweithgaredd
au gwneud
elw/codi arian



Costau wrth gefn,
benthyciadau,
gwaddolion neu
log



Gweithgareddau
gwleidyddol neu
grefyddol



Talu rhywun arall
i ysgrifennu'ch
cais

5. Sut byddwn ni'n asesu'ch cais?

Byddwn yn defnyddio ein barn i asesu'ch cais yn erbyn y tair thema, nod y rhaglen a'r meini prawf a ganlyn:

- Mae'ch cymuned wedi cymryd rhan wrth gynllunio'r prosiect, mae wedi dylanwadu ar ei ddyluniad a bydd yn parhau i helpu llunio ei gyflwyniad.
- Bydd eich prosiect yn adeiladu ar y cryfderau sydd eisoes yn bodoli yn eich cymuned ac yn llenwi bwlch neu'n cydweddu â gwasanaethau a gweithgareddau eraill.
- Bydd eich prosiect yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol yn eich cymuned.
- Eich mudiad chi sydd yn y sefyllfa orau i gyflwyno a chyflawni'r canlyniadau cynlluniedig ac sydd â'r cysylltiadau priodol o fewn eich cymuned leol.

6. Mae dau edefyn i Pawb a'i Le:

Grantiau maint canolig: £10,001 i £100,000

Proses ymgeisio un cam yw hon. Byddwn yn ceisio rhoi ein penderfyniad i chi o fewn tri mis ar ôl derbyn eich ffurflen gais wedi'i chwblhau. **Cysylltwch â ni i drafod eich syniad ar gyfer prosiect a byddwn yn anfon ffurflen gais atoch i'w cwblhau.**

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a roddwch i ni yn eich ffurflen gais i wneud penderfyniad p'un a fyddwn yn cynnig ariannu i chi ar gyfer eich prosiect. Wrth i ni asesu eich cais byddwn yn defnyddio unrhyw wybodaeth leol sydd gennym am eich maes gwaith a byddwn yn ystyried darpariaeth debyg arall. Bydd hyn yn ein helpu deall sut bydd eich prosiect yn elwa ac yn llenwi bwlch o fewn eich cymuned. Mae'n bosib y byddwn yn cysylltu â chi yn ystod y broses asesu i egluro materion a gofyn am wybodaeth bellach. Os nad yw eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn dweud pam wrthyh.

Grantiau mawr: £100,001 i £500,000

Proses dau gam yw hon. Mae'r ffurflen gais Cam un ar gael ar ein gwefan: cronfagymunedolyg.org.uk/pawbailemawr

Cam un

Mae Cam un yn galluogi chi i gynnig trosolwg o'ch prosiect a'r gwahaniaeth y bydd yn ei wneud. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a roddwch i ni yn eich ffurflen gais Cam un i wneud penderfyniad p'un a fyddwn yn eich gwahodd i Gam dau ai beidio. Wrth i ni asesu eich cais byddwn yn defnyddio unrhyw wybodaeth leol sydd gennym am eich maes gwaith a byddwn yn ystyried darpariaeth debyg arall. Bydd hyn yn ein helpu deall sut bydd eich prosiect yn elwa ac yn llenwi bwlch o fewn eich cymuned. Byddwn yn anelu at eich hysbysu am benderfyniad o fewn chwech wythnos ar ôl derbyn eich cais Cam un wedi'i gwblhau. Os nad yw eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn dweud pam wrthyh.

Mae'r gystadleuaeth am arian Pawb a'i Le'n frwd. Gan fod y galw am ein hariannu bob amser yn llawer uwch na'r arian sydd ar gael, mae'n rhaid i ni ddewis rhwng nifer mawr o geisiadau da. Bob mis ar gyfartaledd, rydym yn derbyn dwywaith yn fwy o geisiadau na'r hyn y gallwn ei ariannu. Gallwn wahodd dim ond y geisiadau cryfaf i Gam dau felly.

Cam dau

Os ydych yn llwyddiannus yng Ngham un, byddwn yn gofyn i chi gwblhau ffurflen gais Cam dau, neu gynllun prosiect os yw'n well gennych, yn gofyn am wybodaeth fanylach. Byddwn yn cynnig adborth o'n penderfyniad Cam un i'ch helpu ymdrin â neu egluro meysydd penodol, ynghyd ag awgrymiadau ar gwblhau'ch cais Cam dau. Mae'n bosib y byddwn yn cysylltu â chi yn ystod y broses asesu i egluro materion a gofyn am wybodaeth bellach.

Rydym yn gofyn i chi anfon eich cais Cam dau wedi'i gwblhau atom o fewn pedwar mis ar ôl ein penderfyniad Cam un ac yn anelu at hysbysu chi am ein penderfyniad terfynol o fewn pedwar mis ar ôl derbyn eich cais Cam dau wedi'i gwblhau. Os nad yw eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn dweud pam wrthyich.

Mwy o wybodaeth

Wedi i ni wahodd eich prosiect i Gam dau, ni ddylech wneud newidiadau sylweddol i'ch cynlluniau, er enghraifft nod cyffredinol eich prosiect, newidiadau i'r grŵp buddiolwyr targed, yr ardal y byddwch yn ei thargedu neu newidiadau mawr i'ch cyllideb. Os ydych yn bwriadu gwneud newidiadau wrth i chi ddatblygu'ch cais Cam dau, dylech gysylltu â ni i drafod y newidiadau hyn cyn i chi gyflwyno'r cais Cam dau.

Ni ellir defnyddio ein hariannu i dalu costau gwasanaethau neu weithgareddau sy'n ffurfio rhan o gyfrifoldeb statudol y llywodraeth, er y gellir defnyddio ein hariannu i weddu i'r cyfryw wasanaethau neu wella nhw.

Gallwn ystyried ceisiadau i ariannu prosiectau sydd wedi cael eu hariannu'n flaenorol o ffynonellau eraill, gan gynnwys rhaglenni Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Fodd bynnag, mae angen i ni weld bod cam nesaf y prosiectau hyn wedi ei ddatblygu gan ystyried unrhyw ddysgu, newidiadau i'r sector rydych yn gweithio ynddo ac y gallwch ddarparu tystiolaeth y bu'r ymagwedd yn llwyddiannus. **Os ydych yn ystyried gofyn i ni ariannu prosiect sydd eisoes yn bodoli, cysylltwch â ni er mwyn i ni drafod eich syniad.**

Rydym yn annhebygol o ariannu gwaith craidd y mudiad, er y gallwch gynnwys cyfraniad at gostau cyffredinol y mudiad yn y cais. Ewch i'n gwefan am fwy o wybodaeth:

cronfagymunedolyg.org.uk/adennillcostauallawn

7. Mae gennyf ddiddordeb. Sut ydw i'n dechrau arni?

Sicrhewch eich bod yn darllen y nodiadau arweiniad hyn yn ofalus. Os yw eich prosiect yn cynnwys tir ac adeiladau, bydd angen hefyd i chi ddarllen ein harweiniad ar gyfer prosiectau tir ac adeiladau cyn cwblhau ffurflen gais. Byddwch yn dod o hyd i wybodaeth ddefnyddiol bellach ar ein gwefan hefyd.

Cysylltwch â ni cyn i chi ymgeisio os:

- Ydych yn ymgeisio am grant canolig hyd at £100,000.
- Yw eich prosiect yn cynnwys tir ac adeiladau.
- Ydych yn ymgeisio am Grant Datblygu Cyfalaf.
- Yw eich prosiect yn parhau â gweithgareddau sydd eisoes yn bodoli.

Gallwn roi cyngor a chefnogaeth ychwanegol i chi cyn i chi gyflwyno'r cais a byddwn yn dweud mwy wrthy ch am yr wybodaeth y mae ei hangen arnom genny ch.

Pan fyddwch yn cysylltu â ni, dyma'r mathau o gwestiynau y byddwn yn eu gofyn. Bydd yn ddefnyddiol i chi gael cymaint o wybodaeth wrth law â phosib. Os ydych yn gofyn i ni am gyngor ar eich syniad prosiect trwy e-bost, rhowch gymaint o wybodaeth â phosib yn eich e-bost er mwyn i ni roi adborth priodol yn ein hateb.

- Pa fath o fudiad ydych chi? Trydydd sector, menter gymdeithasol, corff statudol etc.
- Faint o ariannu ydych chi'n chwilio amdano a thros faint o flynyddoedd?
- Beth yw eich syniad prosiect, a ble caiff ei gyflwyno.
- Sut cafodd y syniad ei ddatblygu a gyda phwy rydych wedi cysylltu/ymgyngori?
- Sut mae'r prosiect yn cyfateb i nod y rhaglen ar dudalen pedwar a'r meini prawf a nodir ar dudalen chwech.
- Ni waeth p'un a yw'r prosiect yn un newydd neu barhau â phrosiect a ariannwyd yn flaenorol (naill ai drwy raglenni Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol neu ffynonellau eraill)?
- Os yw'ch prosiect yn ymwneud â thir ac adeiladau, byddwn yn gofyn i chi am berchnogaeth ar y tir/adeilad a'r opsiynau a ystyriwyd i ddangos mai'ch syniad chi yw'r un sy'n cynnig y gwerth gorau am arian wrth gyflwyno effeithiau'r rhaglen.

Cysylltwch â'n Tîm Cymorth trwy anfon e-bost i cymru@cronfagymunedolyg.org.uk, ffonio **0300 123 0735** neu drwy'r gwasanaeth cyfnewid testun ar **18001** plws **0300 123 0735**.

Pan fyddwn yn derbyn eich cais, byddwn yn gwirio eich bod wedi anfon popeth rydym wedi gofyn amdano. Os nad ydych, byddwn yn ysgrifennu atoch ac yn rhoi pum niwrnod gwaith o ddyddiad y llythyr i chi anfon unrhyw wybodaeth sydd ar goll atom. **Os na allwch gwrdd â'r terfyn amser hwn, cysylltwch â ni ar unwaith.**

Wrth dderbyn eich cais cyflawn, bydd yn cael ei roi i Swyddog Ariannu i gael ei asesu.

8. Y broses ymgeisio

Pawb a'i Le - Grantiau Maint Canolig

(Rhwng £10,001 a £100,000)

Cyn-ymgeisio

Ffoniwch neu e-bostiwch ni i drafod eich syniad prosiect



Os nad yw eich prosiect yn gymwys nac yn addas ar gyfer Pawb a'i Le, byddwn yn rhoi adborth i chi

Os yw eich prosiect yn addas ar gyfer Pawb a'i Le byddwn yn anfon deunyddiau ymgeisio i chi eu cwblhau



Cais

Mae gennych hyd at **4 mis** i gwblhau a chyflwyno'ch ffurflen gais



Byddwn yn asesu'ch cais o fewn **3 mis**



Grant heb ei ddyfarnu: Byddwn yn rhoi adborth i chi ar ein penderfyniad

Grant heb ei ddyfarnu: Dechrau ar eich prosiect o fewn chwe mis o'r dyfarniad

Pawb a'i Le - Grantiau Mawr

(Rhwyng £100,000 a £500,000)

Cyn-ymgeisio

Ffoniwch neu lawrlwythwch ddeunyddiau ymgeisio o'n gwefan



Ydy eich prosiect yn cynnwys:

- Parhau â gweithgareddau presennol
- Tir neu adeiladau
- Neu a fydd angen grant datblygu cyfalaf?

Ydy

Ffoniwch neu e-bostiwch ni i drafod eich syniad prosiect



Os nad yw eich prosiect yn gymwys nac yn addas ar gyfer Pawb a'i Le, byddwn yn rhoi adborth i chi

Na

Os yw eich prosiect yn addas ar gyfer Pawb a'i Le byddwn yn anfon deunyddiau ymgeisio i chi eu cwblhau



Cam un

Mae gennych hyd at **4 mis** i gwblhau a chyflwyno'ch ffurflen gais



Byddwn yn asesu'ch cais o fewn **6 wythnos** ar ôl cyflwyno ac yn rhoi penderfyniad i chi



Heb gael eich gwahodd i gam dau: byddwn yn rhoi adborth i chi ar ein penderfyniad

Wedi'ch gwahodd i gam dau: byddwn yn rhoi adborth i chi ar eich cais ac yn rhoi ffurflen gais cam dau i chi



* Os ydych wedi gofyn am gyllid Datblygu Cyfalaf, fel gaiff y cyllid hwnnw ei ryddhau ar y pwynt hwn

Cam dau

Mae gennych hyd at **4 mis** i gwblhau a chyflwyno'ch ffurflen gais



* Bydd gan ymgeiswyr y dyfernir cyllid Datblygu Cyfalaf iddynt chwe mis i wario'r Grant Datblygu Cyfalaf a chwblhau a chyflwyno eu cais cam dau

Byddwn yn asesu'ch cais o fewn **4 mis**



Grant heb ei ddyfarnu: byddwn yn rhoi adborth i chi ar ein penderfyniad

Grant wedi'i ddyfarnu: Dechrau ar eich prosiect o fewn chwe mis o'r dyfarniad